Cofnodion o Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 6 Mai 2024 am 8.00 o'r gloch yn Festri Capel Penuwch
Minutes of Llangeitho Community Council Annual General Meeting held on Monday, 6 May 2024 at 8.00 pm at The Vestry, Penuwch

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a diolchwyd i bawb am ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar nos Lun Ŵyl y Banc.
The Chair welcomed the members to the meeting, and thanked them for attending the AGM on a Bank Holiday Monday.
Estynnwyd cydymdeimlad a Cyng Ieuan Gwynne â'r teulu yn ei brofedigaeth ddiweddar.
Condolence were expressed to Cllr Ieuan Gwynne and family on their recent bereavement.

Presennol/*Present*
Cyng Rhian Turner (Gadair/*Chair*), Daniel Thomas, Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Beryl Evans, Sarah Evans, Emyr Jones, Dafydd Morse, Gwefair Owen, Paul Rooke a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/*Apologies* – Cyng/*Cllr* Myrddin James, Ieuan Gwynne & PCSO John Evans.

Cyfrion Blynyddol / *Annual Accounts*
Cylchredwyd copïau o'r cyfrifon drwy e-bost a derbyniwyd yn gywir ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas. Arwyddwyd y ffurflen flynyddol â'r cyfrifon gan y Cadeirydd. Cadarnhaodd y Clerc byddai Archwiliad llawn yn cael ei wneud eleni.
The statement of accounts was distributed via email and were proposed correct by Cllr Beryl Evans and seconded by Cllr Daniel Thomas. The annual form and accounts were signed by the Chair. The Clerk confirmed that a full audit would be held this year.

Ethol Cadeirydd / *Election of Chairperson*
Enwebwyd Cyng Beryl Evans (Ward Llangeitho) i'r gadair ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Sarah Evans. Derbyniwyd y swydd a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth. Diolchodd Cyng Rhian Turner i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. Parhawyd y cyfarfod o dan arweinyddiaeth Cyng Beryl Evans.
Cllr Beryl Evans (Llangeitho Ward) was proposed by Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Sarah Evans. Cllr Beryl Evans accepted the office and thanked everyone for their support. Cllr Rhian Turner thanked everyone for their support during the last year and thanked the Clerk for her work. The meeting continued under the chairmanship of Cllr Beryl Evans.

Ethol Is-Gadeirydd / *Election of Vice Chairperson*
Cynigwyd Cyng Gwilym Evans (Ward Penuwch) ar gynnig Cyng Gerwyn Ebenezer ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen. Derbyniwyd y swydd.
Cllr Gwilym Evans (Penuwch Ward) was proposed as Vice Chair by Cllr Gerwyn Ebenezer and seconded by Cllr Gwenfair Owen. Gwilym Evans accepted the office.

Ethol Archwiliwyr Mewnol / *Appointment of Internal Auditor*
Cynigwyd Mr Gareth Jones ar gynnig Cyng Sarah Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones. Cytunwyd ar dâl o £20 am archwilio cyfrifon 2023-24, ond i'r Clerc cadarnhau ganddo fod y taliad yn dderbyniol.
Mr Gareth Jones was proposed as internal auditor by Cllr Sarah Evans and seconded by Cllr Emyr Jones. It was agreed to pay him £20 for auditing the 2023-24 account, but the Clerk to enquire if this amount was acceptable.

Cyflog a Chostau'r clerc / *Clerk Costs & Wages*
Codwyd cyflog y clerc 5% i £129.27 y mis am 2024-25 ar gynnig Cyng Gerwyn Ebenezer ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse.
The Clerk's salary was increased by 5% to £129.27 a month for 2024-25 – proposed by Cllr Gerwyn Ebenezer and seconded by Cllr Dafydd Morse.
Costau'r Clerc am 2023-24 £255.35, cytunwyd i'w dalu gan Cyng Gerwyn Ebenezer ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse. (Costau'r Clerc yn cynnwys tâl aelodaeth i Brightpay, pecyn i wneud cyflau am £98.70 y flwyddyn 2023-24)
Clerk's costs for 2023-24 £255.35, agreed to pay – proposed by Cllr Gerwyn Ebenezer and seconded by Cllr Dafydd Morse. (Clerk's costs includes membership to Brightpay, salary package - £98.70 for 2023-24).

Terfynwyd y cyfarfod Blynyddol a pharhawyd efo'r cyfarfod misol.
The AGM concluded and the monthly meeting continued.

Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest* – Neb / *No one*

Adroddiad yr Heddlu / *Police Report*
Yn absenoldeb yr Heddlu, ni dderbyniwyd adroddiad o flaen llaw i'r cyfarfod.
The Police was not present and the Clerk had not received a report.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting*
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.
The minutes of the last meeting were approved – proposed by Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Daniel Thomas,

Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes*

- Trefnwyd hyfforddiant llwyddiannus ar sut i ddefnyddio'r peiriant diffib ym Mhenuwch yn ddiweddar, diolchwyd i'r clerc am drefnu. Angen i drigolion Penuwch drefnu cofrestru'r peiriant ar 'Y Circuit' ac i rywun fod yn gyfrifol am wirio ei fod yn iawn yn rheolaidd.
  A successful training event was held in Penuwch recently on the use of the defib. The Clerk was thanked for arranging the event. The machine in Penuwch needs to be registered on 'The Circuit" and also ensure that someone would check the machine regularly.
- Dim manylion wedi'u dderbyn am grantiau ar gyfer ceisio am beiriant diffib yn y ciosg yn Rhydypandy hyd yma.
  No information had been received regarding grants available for a defib at the kiosk in Rhydypandy.
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad â Cyng Rhodri Evans.
  BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsyrn mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir.
  Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion and being investigated by the County Council.
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra oedd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn.
  The results of the speed lines placed within the community had not been received.
- Perchennog ffens y parc yn Llangeitho, dal heb gwblhau codi'r ffens, ond un panel wedi'u leoli wrth ymyl y gweddill i wneud ffin y parc yn ddiogel i blant.
  The owner of the fence next door to the park in Llangeitho had still not undertaken remedial work but one panel was in situ ensuring safety of children.
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma.
  The hedge cutting at the top of Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been carried out yet.
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch a'r sgwâr yn Llangeitho.
  The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch and Llangeitho square need to be painted.
- Angen cyfieithiad Saesneg o'r llythyr sydd i'w gadw wrth law ynglŷn ag arwyddion cyflymdra 20mya.
  English translation of letter now to be kept in reserve regarding 20mph speed signs.
- Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir am y conau traffig sydd wedi bod wrth ymyl eiddo Glanwern Penuwch, mae hyn yn codi pryder i'r gymuned am eu bod yn rhagweld damwain yn digwydd wrth i gerbydau symud allan i ganol y ffordd i deithio o amgylch y conau.
  Clerk to contact the County Council regarding the traffic cones nesar Glanwern Penuwch, these are of concern to residents as they forsee an accident occuring as cars have to veer to the middle of the road to avoid the cones.
- Angen glanhau drains lan ffordd o Parcrhydderch heibio Bronaeron, Llangeitho.
  The drains up towards Bronaeron Llangeitho from Parchrhydderch need to be cleared.
- Angen glanhau'r ffordd heibio Glanwern, Penuwch, o'r cerrig sydd wedi syrthio, pryderon efo'r cyhoedd am y gwaith yma ddim wedi'u wneud.
  The stones on the road near Glanwern, Penuwch need to be cleared, residents fear as this work has not been carried out.

- Soniwyd bod cyflwr y ffordd lawr Lôn Tŷ Croes, Penuwch wedi mynd yn wael ac mae cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw cynnal y Lôn.
  It was mentioned that the lane towards Tŷ Croes, Penuwch is in a bad condition, County Council are responsible for the maintenance of this road.
- Soniwyd bod yr angen am 20mya trwy Benuwch yn ddiangen a bod angen ymateb i lythyr Elin Jones i grybwyll hyn.
  It was mentioned that the 20mph through Penuwch is unnecessary and that a letter should be send to Elin Jones informing her of this.
- Nodwyd fod cylfert wedi blocio ar y ffordd Alltgoch, Bwlch y Ddwyallt, Pantybeudy Hall, Llangeitho a bod gravel dros y ffordd.
  It was noted that the culvert near Alltgloch, Bwlch y Ddwyallt and Pantybeudy Hall Llangeitho had blocked with gravel across the road.
- Cyflwr y ffordd lawr o'r Pentref Llangeitho lawr am Bont Aeron, heol Talsarn, wedi mynd yn wael, ynghyd a'r ffordd oddi amgylch y lôn o Parcrhyddech draw am Felinfawr.
  The condition of the road from Llangeitho village toward the bridge on the Talsarn road was poor, along with the lane from Parchrhydderch towards Felinfawr.
- Tyllau yn y ffordd lan am Bwlchffin – Tŷ Nant – Pontbrengarreg.
  Potholes on the road towards Bwlchffin – Tŷ Nant – Pontbrengarreg.
- Disgwylir cadarnhad oddi wrth Belltown Power i glywed am brosiect Waun Maenllwyd Energy Hub a'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod cyhoeddus.
  Confirmation is expected from Belltown Power about the possibility of holding a public meeting regarding Waun Maenllwyd Energy Hub.
- Cylfert ar bwys Cilrhug wedi blocio, angen ei glanhau.
  Culvert near Cilrhug blocked, needs to be cleared.
- Tyllau mawr oddi tan Aeron View, Llangeitho, angen ail-wynebu'r ffordd.
  Deep potholes on the road under Aeron View, Llangeitho, the road needs to be resurfaced.
- Cwynion wedi'u dderbyn bod sbwriel yn cael ei roi allan yn rhy gynnar tu allan i Brynglas, Llangeitho.
  Complaints received that refuse was being put out early at the end of the lane at Brynglas, Llangeitho.

Llyn Fanod
Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Cyfreithiwr Mr Edward Harris.
No response from Mr Edward Harris Solicitor.

Cyfrifon/*Accounts*
- Cyflog Clerc – Ebrill '24 - £123.11 – *Cleark Salary*

Cynnig/*Proposer*: Cyng/*Cllr* Rhian Turner Eiliwyd/*Seconder:* Cyng/*Cllr* Gwenfair Owen

Cyngor Sir Ceredigion *County Council*
Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

Un Llais Cymru/*One Voice Wales*
Dim i'w gofnodi/*Nothing to report.*

Ysgol Rhos Helyg
Cytunwyd i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r Cabinet a'r Arweinydd o Gyngor Sir Ceredigion i ddatgan ein gofid am y bygythiad i ddyfodol Ysgol Rhos Helyg oedd yw cynnwys mewn ymgynghoriad can y Cyngor Cymuned.. Cynghorwyr i feddwl am bwyntiau i ddodi yn y llythyr o gefnogaeth.
It was agreed to write a letter of support for the school to the Cabinet and Leader of Cyngor Sir Ceredigion raising our concern that the future of Ysgol Rhos Helyg was to be considered in a forthcoming consultation. Councillors to think of relevant points to include in the letter of support.

Comisiwn Ffiniau / *Bounday Commission*

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i dynnu sylw ymwybyddiaeth y cyhoedd i'r ddogfen a baratowyd gan y Comisiwn Ffiniau i gyfuno Cynghorau Cymuned efo'i gilydd ar y 30 o Ebrill. Gofynnwyd yn garedig i Cyng Daniel Thomas a Cyng Dafydd Morse i arwain ar y cyfarfod cyhoeddus gan ddangos sgriniau yn ddwyieithog i'r rhai a fi'n bresennol. Gofynnwyd i'r cyhoedd ddrafftio llythyron yn lleisio eu barn gan nodi'r rhesymau a fu drafodwyd yn y cyfarfod cyhoeddus. Y llythyron i'w dychwelyd i'r Clerc a phostio'r cyfan efo'i gilydd drwy post recordio dosbarth cyntaf.
It was agreed to hold a public meeting to raise awareness of the document prepared by the Boundaries Commission to merge Community Councils on the 30th of April. Cllr Daniel Thomas and Cllr Dafydd Morse were kindly asked to lead the public meeting and to show bilingual screenshots to those present. The purpose of the meeting was to ask the public to send correspondence highlighting their opinion based on the reasons discussed in the public meeting. The letters were to be returned to the Clerk so that they could be posted together by first class recorded delivery.

Gohebiaeth/*Correspondence*

Derbyniwyd copi o hen fap o Langeitho trwy law Abington Law, cytunwyd i'r Clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch iddynt a chadw'r map ar ffeil.
A copy of an old map of Llangeitho was send via Abington Law, it was agreed that the Clerk should write to thank them and hold the map on file.

Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

- Derbyniwyd ymateb ar sut i lanhau'r milwr ar y cylchfan oddi wrth Kieran Elliott, rhestrwyd argymhellion ar sut i lanhau'r milwr fel bod Mr Dilwyn Daniels yn gallu ei lanhau efo gofal mawr.
  A letter was received from Kieran Elliott with instructions on how to clean the soldier on the war memorial so the Dilwyn Daniels can clean with the greatest of care.
- Cytunwyd i hysbysebu am geisiadau am gymorth ariannol i'w dychwelyd erbyn ein cyfarfod nesaf.
  It was agreed that a notice would be published asking local associations to apply for financial assistance by the next meeting.
- Cyflwr y ffordd o Langeitho lawr am Dalsarn wedi mynd yn wael.
  The condition of the road from Llangeitho towards Talsarn was in a poor state.
- Tipyn o fwd a hen ddail wedi dod lawr y rhiw rhwng Gorffwysfa a Noddfa.
  A substantial amount o mud and old leaves had come down the hill and settled between Gorffwysfa and Noddfa.
- Nifer o dyllau yn y ffordd lawr lôn Tŷ Croes, Penuwch.
  A number of potholes on the lane down towards Tŷ Croes, Penuwch.
- Angen y sweeper ar y ffordd lan o Langeitho i Benuwch, heibio Cilcert.
  Sweeper needed on the road from Llangeitho towards Penuwch, via Cilcert.
- Er gwybodaeth yn unig, piben dŵr wedi dymchwel uwchben y Neuadd, heibio tŷ Cartref. Mater i Dwr Cymru yw hon, nid y Cyngor Sir.
  For information only, a mains water pipe had collapsed near the Hall/Cartref. This is a matter for Welsh Water not the Council Council.
- Nifer o dyllau yn y ffordd heibio Bwlchffin, Llwynpiod.
  A number of potholes on the road by Bwlchffin, Llwynpiod.
- Twll gwael tu allan i fferm Pantddafad, Llwynpiod.
  A deep pothole outside Panddafad, Llwynpiod.
- Ffordd yn wael o garej bysiau James draw am y sgwâr yn Llangeitho, angen ail wynebu'r ffordd.
  Road from the village square toward the old James buses garage in a poor state, needs resurfacing.
- Ffordd tu allan i dy Pontbrengarreg yn wael, edrych fel bod yna goncrit wedi cwympo ar y ffordd, anwastad ofnadwy ar y ffordd.
  The road outside Pontbrengarreg in a poor condition, looks as if concerete had leaked onto the road, uneaven surface.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting*

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 3ydd o Fehefin 2024 yn Neuadd Jiwbilî Llangeitho am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Llangeitho Jiwbili Hall on Monday 3rd June 2024 at 8.00 o'clock.